

Dyddiad / Date – Dydd Mercher, 11 Chwefror 2020

Mark Drakeford AC  
Prif Weinidog Cymru

Annwyl Brif Weinidog,

Ysgrifennaf atoch i ofyn am gyfarfod brys i fynd i'r afael â phryderon dybryd sydd gennym am gyflawniad agweddau allweddol y cytundeb a wnaed rhwng ein dwy blaid ar ddechrau tymor y Pumed Cynulliad fel rhan o fargen y gyllideb.

Yn benodol, mae gennym bryderon am ddiffyg cynnydd ar ddatblygu gwasanaethau amenedigol, ymrwymiad y Llywodraeth i ddelifro ffordd osgoi Llandeilo a gweithredu ar gynnal astudiaeth ddichonoldeb i rwydwaith metro Bae Abertawe a Chymoedd y Gorllewin i roi dim ond tri enghraifft.


Rwy'n gwerthfawrogi bod y cyd-destun gwleidyddol wedi newid ers i'n dwy blaid gytuno ar fargen y gyllideb. Serch hynny, rwy'n credu bod angen sicrhau bod ysbryd yr hyn ymrwymodd y ddwy blaid iddo mewn ffydd yn cael ei barchu.

Gofynnaf yn garedig i'ch swyddfa gysylltu gyda Steffan Bryn, Pennaeth Staff Plaid Cymru ([steffan.bryn@cynulliad.cymru](mailto:steffan.bryn@cynulliad.cymru)) i wneud y trefniadau gyda'n hochr ni ar gyfer cynnal cyfarfod ar y cyfle cynharaf.

Mae Rhun ap Iorwerth AC am fynychu'r cyfarfod yn ogystal yn rhinwedd ei rôl fel Gweinidog Cyllid Cysgodol. Dychmygaf y byddwch felly am sicrhau bod eich Gweinidog Cyllid yn bresennol yn ogystal yn yr un modd.

Cyn y cyfarfod gofynnwn i chi ddarparu adroddiad cynnydd inni ar gyflawniad yr holl ymrwymadau yn sgil y cytundebau rhyngom yn ystod y Pumed Cynulliad.

Yr eiddoch gywir,



Adam Price AC,  
Arweinydd, Plaid Cymru